Dinas a Sir Abertawe

Cofnodion Cyfarfod y Panel Ariannu Allanol

Siambr y Cyngor - Neuadd y Ddinas, Abertawe

Dydd Mercher, 6 Chwefror 2019 am 2.00 pm

Yn Bresennol: Y Cynghorydd R C Stewart (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

Y Cynghorydd(wyr)	**Y Cynghorydd(wyr)**	**Y Cynghorydd(wyr)**
J E Burtonshaw	M C Child	A S Lewis
C E Lloyd	J A Raynor	

Swyddog(ion)

Stephen Cable	Swyddog Chwarae i Blant
Louise Herbert-Evans	Pennaeth yr Uned Cynllunio a Chyflwyno Cyfalaf
Allison Lowe	Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd
Debbie Smith	Dirprwy Brif Swyddog Cyfreithiol
Jane Whitmore	Rheolwr Partneriaethau a Chomisiynu
Gaynor Winsor	Cyfrifydd

Ymddiheuriadau am absenoldeb
Y Cynghorydd(wyr): R Francis-Davies a/ac M Thomas

---

85 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

86 Cofnodion.

Penderfynwyd cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod y Panel Ariannu Allanol a gynhaliwyd ar 9 Ionawr 2019 fel cofnod cywir, yn amodol ar ychwanegu ymddiheuriadau'r Cynghorydd J A Raynor.

87 Grant Cyfleoedd Chwarae Cymru Gyfan 2018-19.

Cyflwynodd y Rheolwr Digonolrwydd Gofal Plant a Chwarae adroddiad i nodi ystyriaethau mewn perthynas â'r arian a dderbyniwyd i gefnogi cydymffurfiaeth â'r Ddyletswydd Digonolrwydd Chwarae.

Penderfynwyd:

1) Derbyn yr arian a gynigiwyd, sef £140,000, gan Lywodraeth Cymru i gefnogi digonolrwydd chwarae yn 2018/19
2) Dosbarthu dadansoddiad o sut caiff yr arian grant ei wario ym mhob parc i holl Aelodau'r Cabinet.

88 Grant Plant a Chymunedau Llywodraeth Cymru

Cyflwynodd y Rheolwr Partneriaethau a Chomisiynu adroddiad i gymeradwyo'r cyllid ar gyfer Grant Plant a Chymunedau Llywodraeth Cymru.

Penderfynwyd y byddai'r Panel Ariannu Allanol yn gwneud y canlynol:

1) Cymeradwyo'r newidiadau i gyllid grant saith grant sydd eisoes yn bodoli;
2) Derbyn y llythyr sy'n cynnig un grant Plant a Chymunedau cyfunol newydd.

89 Grant Cymorth Tai Llywodraeth Cymru.

Cyflwynodd y Prif Swyddog Ataliaeth, Lles a Chomisiynu adroddiad i gymeradwyo'r cyllid ar gyfer Grant Cymorth Tai Llywodraeth Cymru.

Nodwyd bod ffigur anghywir wedi'i gynnwys yn llythyr cynnig Llywodraeth Cymru ar gyfer 'Gorfodaeth Rhentu Doeth Cymru' ar gyfer 2019/20. Dylai'r ffigur fod yn £26,636, nid £9,523 fel a nodwyd yn wreiddiol.

Penderfynwyd y byddai'r Panel Ariannu Allanol yn gwneud y canlynol:

1) Cymeradwyo'r newidiadau i gyllid grant tri grant sydd eisoes yn bodoli;
2) Derbyn llythyr sy'n cynnig un Grant Cymorth Tai cyfunol newydd.

90 Ysgolion yr 21ain Ganrif - Cyllid ar gyfer Gwaith Sylweddol mewn Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir - Mynegiant o Ddiddordeb.

Cyflwynodd Pennaeth yr Uned Cynllunio a Chyflwyno Cyfalaf adroddiad i hysbysu'r Panel Ariannu Allanol o'r datganiadau o ddiddordeb a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â gwaith cynnal a chadw â blaenoriaeth mewn ysgolion a gynorthwyir yn wirfoddol, ar yr amod bod Llywodraeth Cymru'n ariannu 85% a bod yr ysgolion yr effeithir arnynt yn darparu gweddill y cyllid sef 15%.

Penderfynwyd y byddai'r Panel Ariannu Allanol yn cymeradwyo'r cynlluniau arfaethedig yn amodol ar gymeradwyaeth y datganiad o ddiddordeb i Lywodraeth Cymru, ac y bydd y cyllid yn cael ei rannu rhwng Llywodraeth Cymru (85%) a'r ysgolion (15%).

Daeth y cyfarfod I ben am 2.28 pm

Cadeirydd